Rhifyn 4

Mae'r tymor yn dechrau ar 9 Medi 2013




# NEWYDDION DIWEDDARAF Y DWYRAIN

Newyddion Diweddaraf y Dwyrain

Newyddion Diweddaraf y Dwyrain

## Eich Plant. Dyfodol Caerdydd.

## PRIF BENAWDAU

- Y newyddion diweddaraf am y paratoadau ar gyfer agor Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Cyflwyno Dylan, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- Disgyblion yn dweud eu dweud am adeiladau newydd yr ysgol
- Dyfodol Ysgol Uwchradd Llanrhymni
- Trefniadau diogelwch
- Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – y cymorth sydd ar gael i chi

## Arwydd o'r dyfodol!

Tra bu'r plant yn mwynhau gwyliau'r haf, bu gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod yr adeiladau ar safle Ysgol Uwchradd Tredelerch yn hollol barod i agor fel Ysgol Uwchradd y Dwyrain ym mis Medi. Mae llawer o waith caled yn cael ei wneud y tu ôl i'r llenni i gyflawni'r cam cyffrous hwn o'r project. Cafodd y staff addysgu lawer o hyfforddiant ac arweiniad i helpu i sicrhau eu bod yn barod i gynorthwyo'r disgyblion, y rhieni a'i gilydd o fis Medi ymlaen.

Siaradon ni â'r Rheolwr Ystadau, Gareth Cooke, sy'n goruchwylio'r gwaith adeiladu a'r gwaith o symud dodrefn ar safleoedd Ysgol Uwchradd Tredelerch ac Ysgol Uwchradd Llanrhymni.

"Helo, mae popeth yn mynd yn dda ar hyn o bryd. Rydyn ni'n brysur iawn, fel y gallwch chi ddychmygu, ond bu'r heulwen a'r tywydd sych o gymorth mawr. Mae angen gwneud y pethau bychain gyda gwaith mor fawr â hyn. Fi sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff pob eitem ei symud yn briodol, ac i'r lleoliad cywir. Rydw i'n cadw llygad barcud ar yr holl waith adeiladu ac yn sicrhau bod yr holl arwyddion wedi'u gosod yn barod ar gyfer y disgyblion ym mis Medi. Mae diogelu a chlirio safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni mewn ffordd sensitif a phriodol yn flaenoriaeth sydd yr un mor bwysig i mi â'r gwaith gwella yn Ysgol Uwchradd Tredelerch. Rydw i'n ffodus iawn o gael tîm gwych yn gweithio gyda mi i sicrhau y caiff y gwaith ei gwblhau mewn pryd. Rydw i'n teimlo cymysgedd o bryder a chyffro ar hyn o bryd, rydyn ni wedi aros amser hir i symud ac mae'n wych i fod yn rhan ohono, ond yn amlwg rydyn ni dan bwysau i sicrhau ein bod yn rheoli'r newidiadau ar y safle dros yr haf!"

Ni fydd y disgyblion sydd eisoes yn mynd i Ysgol Uwchradd Tredelerch yn gweld fawr ddim newid o ran y trefniadau. Fodd bynnag, caiff ardaloedd nas defnyddiwyd yn flaenorol, yn cynnwys y Bloc Celf gwag a llawr cyntaf un o'r blociau addysgu eu hagor i wneud lle ar gyfer y nifer cynyddol o ddisgyblion a fydd yn mynychu'r ysgol o fis Medi ymlaen. Rydym wrthi'n ailwampio'r ardaloedd hyn ac rydym yn sicrhau bod pob ardal yn bodloni'r safonau Iechyd a Diogelwch gofynnol.

Yn ogystal â'r cylchlythyr hwn i rieni, anfonwyd llythyr at breswylwyr sy'n byw yn agos i'r naill ysgol neu'r llall yn rhoi'r newyddion diweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ar safle'r ysgol sydd agosaf iddynt, a phwy y dylent gysylltu ag ef os oes ganddynt unrhyw bryderon.

# Paratoi ar gyfer agor Ysgol Uwchradd y Dwyrain

Gyda dechrau tymor newydd Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn prysur agosáu, siaradon ni â Ms Karen Gittins, Pennaeth Gweithredol Dros Dro newydd Ysgol Uwchradd y Dwyrain i gael gwybod sut roedd hi'n teimlo wrth baratoi i ddychwelyd i'r ddinas i fynd i'r afael â rôl newydd gyffrous a heriol.



**Helo, Ms Gittins, sut oedd diwedd y tymor i chi?**
Helo! Rhaid i mi gyfaddef y bu diwedd y tymor yn anodd i mi wrth i mi ffarwelio â charfan wych o staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, maent yn deall y rhesymau y tu ôl i'm penderfyniad ac maent yn gwerthfawrogi cymaint rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd i Gymru i fynd i'r afael â'r her newydd hon. Roedd fy nhŷ yn gorlifo â blodau a rhoddion hyfryd iawn, ond y peth pwysicaf i mi oedd nifer y cardiau a gefais a'r geiriau caredig a ysgrifennwyd ynddynt; rydw i wedi gweithio gyda rhai o'r teuluoedd hyn am amser hir felly roeddwn yn drist i ffarwelio â hwy.

**Sut mae pethau'n mynd o ran symud i Gaerdydd?**
Mae'r broses o symud yn mynd yn iawn, er bod pethau braidd yn hectig! Ddoe (23 Gorffennaf) oedd fy niwrnod olaf yn y gwaith ond byddaf yn dal i fynd i mewn i'r ysgol am weddill yr wythnos er mwyn sicrhau bod popeth yn barod ar gyfer y Pennaeth Gweithredol newydd unwaith y caiff ei benodi. Ar y penwythnos byddaf yn mynd ar wyliau am bythefnos, ac o fewn tridiau o ddychwelyd byddaf yn symud lawr i Gaerdydd!

**Beth mae'r enw a'r logo newydd yn ei gyfleu am Ysgol Uwchradd y Dwyrain, yn eich barn chi?**
Yn fy marn i mae'n dweud: dechrau o'r newydd, edrych ymlaen gyda'n gilydd.

**Beth yw eich barn ar gynnwys y disgyblion yn y broses o ddewis yr enw a'r logo? Ydych chi'n hoffi eu dewisiadau?**
Gofynnwyd i mi p'un a oeddwn o'r farn ei bod hi'n syniad da i'r disgyblion fod yn rhan o hyn, ac atebais 'YDY' yn bendant! Mae'n bwysig rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi barn a chydnabod y GALLANT ddylanwadau ar benderfyniad, a'u bod YN GWNEUD hynny. Yn bersonol, rydw i wrth fy modd gyda'r logo newydd. Hwnnw oedd fy ffefryn o blith yr opsiynau ar y rhestr fer.

**Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf dros yr ychydig wythnosau cyntaf yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain?**
Dod i adnabod cymaint o bobl â phosibl! Mae hynny'n cynnwys staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac asiantaethau allanol. Rydw i hefyd yn edrych ymlaen at roi'r cyfle i bobl ddod i'm adnabod innau hefyd.

**Beth yw'r prif rwystrau y byddwch am eu goresgyn?**
Y nod yw dod â phobl at ei gilydd a chytuno ar weledigaeth a rennir; rydw i wedi clywed am y sesiynau gwych a gynhaliwyd eisoes ac mae'n galonogol cael gwybod bod ymrwymiad gwirioneddol i gydweithio. Bydd hyn yn ein galluogi i ddefnyddio'r arfer da o'r ddwy ysgol flaenorol wrth i ni symud ymlaen gyda'n gilydd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Unwaith i ni sefydlu perthnasau gwaith da (ymhlith staff a disgyblion fel ei gilydd) byddwn mewn safle cadarn i fynd i'r afael â'r heriau anochel a ddaw wrth ddatblygu darpariaeth newydd.

**Pa rolau y byddwch chi a'r Pennaeth Dros Dro, Wendy Rees, yn eu cyflawni yn ystod y flwyddyn gyntaf?**
Bydd Wendy yn gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd gan fy ngalluogi i ganolbwyntio ar y cynllun strategol a gwneud y paratoadau gofynnol ar gyfer Medi 2014 a thu hwnt. Ar yr un pryd, bydd Wendy a minnau yn cydweithio'n agos i sicrhau bod y deuddeg mis nesaf mor ddidrafferth â phosibl yn ystod y cyfnod o newid.

**Sut ydych chi'n bwriadu gweithio gyda rhieni'r ysgol a chwrdd â nhw?**
Rwyf o'r farn mai'r ffordd orau o weithio gyda rhieni yw sicrhau fy mod yn cynnig cyfleoedd amrywiol; mae bywydau pobl yn brysur ac mae gan deuluoedd lawer o rwymedigaethau a chyfrifoldebau felly byddaf yn cynnig dewisiadau amrywiol megis defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth, bod yn weladwy yn yr ysgol, cynnig sesiynau galw heibio lle gall rhieni ddod i gwrdd â mi a thrafod unrhyw broblemau neu bryderon yn gyfrinachol ac ati, gan ei bod yn bwysig i mi wrando ar unrhyw bryderon neu broblemau. Hoffwn fynychu unrhyw sesiynau grwpiau cymunedol ac rwyf eisoes wedi cwrdd ag Adam Rees a Steven Honeywell o Gymunedau yn Gyntaf sydd wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am y gwaith gwych a wnaed yn y gymuned leol ac rwy'n awyddus i wneud popeth y gallaf i gefnogi'r gwaith hwnnw.



Y DIWEDDARAF AM YSGOL Y DWYRAIN

### Sut ydych chi'n teimlo am weithio gydag ysgolion cynradd partner Ysgol Uwchradd y Dwyrain?

Rwy'n teimlo'n gyffrous iawn am weithio gyda'r ysgolion cynradd partner; bydd cydweithio o fudd i bawb a byddai hynny'n beth da i bob ysgol, yn cynnwys Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Gallwn ddysgu llawer gan ein cydweithwyr yn yr ysgolion cynradd felly rwy'n ystyried hon yn bartneriaeth ddwyffordd.

### Pa rôl fydd gan y gymuned yn nyfodol Ysgol Uwchradd y Dwyrain?

Mae rôl y gymuned yn bwysig iawn a fy mhrif neges o ran hynny yw fy mod am i'r gymuned wybod bod ganddynt y cyfle i fod yn rhan o'r broses o lunio'r dyfodol! Mae hwn yn gyfle gwych i gyfrannu at y project wrth i ni feddwl am yr adeiladau newydd, y ddarpariaeth newydd, a'r ffordd orau o ddatblygu hynny i ddiwallu anghenion y gymuned. Felly, os ydych chi'n darllen hwn – cymerwch ran – bydd eich barn yn helpu i lunio'r ddarpariaeth!

### Beth ydych chi am ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain?

- Gwella lefelau cyrhaeddiad a chyflawniad (ar draws yr ysgol, nid dim ond canlyniadau TGAU)
- Penodi tîm staff cyflawn yn barod ar gyfer mis Medi 2014
- Ystod ehangach o gyfleoedd a llwybrau dysgu ar gyfer y disgyblion
- Rhaglen allgyrsiol gadarn gydag enw da am ragoriaeth a llwyddiant
- Cydberthnasau gwaith cadarn gyda phawb sy'n gysylltiedig ag Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Cytuno ar weledigaeth ar gyfer y dyfodol
- Enw da fel un o'r ysgolion sy'n gwella gyflymaf yng Nghymru

### Beth yw'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, ar gyfer 2014 a thu hwnt?

Bydd hi'n 2014 yn fuan iawn felly rwyf eisoes yn edrych y tu hwnt i hynny; rwy'n edrych tuag at y cyfnod 2014 – 2018/19. Yn amlwg gall pethau newid yn gyflym iawn, ond o ystyried ein sefyllfa bresennol, ac yn dibynnu ar fy nodau ar gyfer y cyfnod rhwng nawr a 2014 (gweler yr ateb uchod!), mae fy nghynllun hirdymor yn cynnwys y canlynol:

- Canolbwyntio ar lunio'r ddarpariaeth newydd er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pob un o'n disgyblion cyfredol (a disgyblion y dyfodol drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid cynradd)
- Sicrhau bod y ddarpariaeth newydd yn adlewyrchu barn y gymuned o ran yr hyn yr hoffai ei weld fel rhan o'r ddarpariaeth honno, a sicrhau y caiff ei defnyddio'n rheolaidd gan grwpiau cymunedol amrywiol
- Sicrhau y gellir parhau i fod yn hyblyg o ran y defnydd a wneir o'r adeilad er mwyn sicrhau y gellir newid y defnydd a wneir ohono yn y dyfodol gyda chyn lleied o darfu â phosibl
- Parhau i addasu'r cwricwlwm wrth i garfannau'r disgyblion newid er mwyn sicrhau bod mwy o ddewisiadau priodol ar gael iddynt wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- Rwyf am weld gwelliant parhaus o ran cyflawniad a chyrhaeddiad gyda thystiolaeth gynyddol sy'n dangos ein bod wedi rhagori ar y disgwyliadau
- Yn y pen draw, rwyf am i ysgolion eraill ystyried Ysgol Uwchradd y Dwyrain fel enghraifft dda o ysgol lwyddiannus, hyblyg, sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion ac sy'n ystyriol o'r gymuned sy'n hybu dyheadau ac yn dathlu cyflawniadau.

### Y Cynghorydd Bob Derbyshire, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tredelerch

*"Hoffwn achub ar y cyfle hwn i groesawu'r holl ddisgyblion newydd i Ysgol Uwchradd y Dwyrain ym mis Medi. Mae'n debyg y bydd gan y disgyblion a'u teuluoedd rai pryderon o ran dod i ysgol newydd, mae hynny i'w ddisgwyl. Gallaf roi sicrwydd i chi oll o ran beth fydd yn digwydd o ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Bydd llawer o wynebau cyfarwydd i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Llanrhymni ymysg y disgyblion a staff, yn ogystal â llawer o bobl gyfeillgar o Ysgol Uwchradd Tredelerch. Gwnaed llawer o waith i sicrhau proses mor ddidrafferth â phosibl i sicrhau y caiff yr holl blant yr addysg a'r gofal bugeiliol gorau posibl o'r dechrau'n deg. Bydd yr holl blant yn gweld newidiadau o ran adeiladau'r ysgol a fydd yn sicrhau y gall yr ysgol reoli'r mewnlifiad o blant o Lanrhymni, ac mae'r digwyddiadau a gynhaliwyd dros yr wythnosau diwethaf yn sicrhau bod y plant o'r ddwy ysgol eisoes yn dod i adnabod ei gilydd.*
*Mae hwn yn gyfnod cyffrous ym maes addysg yn nwyrain Caerdydd, ac rwy'n siŵr y bydd yr holl blant, nawr ac yn y dyfodol, yn cael budd o'r arian a'r cymorth a roddwyd gan y Cyngor. Bydd hyn, ynghyd â'r adeilad ysgol newydd a glustnodwyd ar gyfer 2016, yn rhoi'r addysg y maent yn ei haeddu i blant yn y rhan hon o Gaerdydd."*





### Y Cynghorydd Derrick Morgan, Cadeirydd Corff Llywodraethu Dros Dro Ysgol Uwchradd y Dwyrain

*"Rwyf mor falch ar ran y plant lleol yn nwyrain y ddinas a'r cymunedau wrth i ni wneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau ysgol newydd o'r radd flaenaf iddynt ddysgu, datblygu a mwynhau ynddi. Rwy'n falch o fod wedi ymwneud ag Ysgol Uwchradd Llanrhymni fel Llywodraethwr ers blynyddoedd lawer; bu gweld y plant yn tyfu i fod yn oedolion ifanc a dod i'w hadnabod nhw a'u teuluoedd yn brofiad arbennig iawn. Rwy'n edrych ymlaen at barhau yn fy rôl fel Llywodraethwr, gan lunio dyfodol yr ysgol newydd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig yr addysg orau posibl i bobl ifanc yr ardal. Rwyf am weld y bobl leol dalentog yn aros yn eu cymunedau lleol, a bydd cynnig gwell amgylcheddau dysgu a gwell cyfleoedd ôl-16 yn chwarae rôl bwysig iawn yn hyn o beth. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at weld y disgyblion yn edrych yn drwsiadus iawn ar 9 Medi yn eu gwisgoedd ysgol newydd, a ddewiswyd gan y disgyblion. Bydd hi'n ddiwrnod emosiynol a balch iawn."*

Y DIWEDDARAF AM YSGOL Y DWYRAIN

## Pennaeth Dros Dro, Wendy Rees.

Tra y bydd Ms Karen Gittins yn rheoli'r agweddau strategol a gweithredol ar Ysgol Uwchradd y Dwyrain, Wendy Rees fydd yn gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd, a bydd eich plant yn ei gweld bob dydd ac yn ei galw'n 'Bennaeth'. Siaradon ni â Mrs Rees i gael gwybod sut yr oedd hi'n teimlo:

*"Rwy'n edrych ymlaen at groesawu'r myfyrwyr i Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Bydd hi'n sefyllfa newydd i bawb, felly bydd angen i bawb gydweithio. Mae hi'n gyfnod newydd a chyffrous i bawb. Fy mlaenoriaeth fydd sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'r disgyblion, a sicrhau eu bod yn datblygu wrth iddynt ymgartrefu yn ystod tymor newydd yr ysgol, yn ogystal â chynorthwyo'r staff addysgu a dod i adnabod y rhieni dros y misoedd nesaf."*

# NODYN ATGOFFA

## Cofiwch gasglu gwisg ysgol newydd eich plentyn!

Cofiwch y bydd disgyblion Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn cael **un wisg ysgol** (heblaw am esgidiau) ac **un cit Addysg Gorfforol** (heblaw am esgidiau) AM DDIM ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd. Gofynnir i'r disgyblion gasglu eu gwisgoedd ar yr amseroedd a'r dyddiadau canlynol o Ysgol Uwchradd y Dwyrain:

- Dydd Mawrth 3 Medi — 9.30am – 12pm — Blwyddyn 7
- Dydd Mawrth 3 Medi — 12.30pm - 3pm — Blwyddyn 8 a 9
- Dydd Mercher 4 Medi — 9.30am – 12pm — Blwyddyn 10 ac 11
- Dydd Mercher 4 Medi — 5pm - 7pm — Pob blwyddyn

Os nad ydych wedi cyflwyno gofynion maint gwisg eich plentyn eto, cysylltwch ag YC Sports ar 029 2023 7968 cyn gynted â phosibl. Disgwylir i bob disgybl wisgo'r wisg gywir yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain ar bob adeg, oni bai ei bod hi'n ddiwrnod 'dim gwisg ysgol', felly mae'n bwysig bod gan eich plentyn y wisg ysgol yn barod ar gyfer diwrnod cyntaf y tymor.

# Arwyddiant Dysgu eich Teulu

Mae'r Bartneriaeth Gwella Addysg yn awyddus i gynnig cymaint o gymorth a chyngor â phosibl i deuluoedd o ran dysgu a hyfforddiant, er mwyn sicrhau y gall pawb fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir. Un ffordd gadarnhaol y bydd hyn yn digwydd yw drwy **Arwyddiant Dysgu'r Teulu**, a gynigir i deuluoedd ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd sy'n rhan o'r Bartneriaeth Gwella Addysg.

### Beth ydyw?

Mae Arwyddiant Dysgu'r Teulu yn gyfle gwych i deuluoedd ddod ynghyd a threulio amser yn trafod eu cryfderau a'u hanghenion o ran dysgu. Mae'n annog teuluoedd i fyfyrio a sylweddoli beth maent yn ei wneud yn dda fel teulu, ac ymfalchïo yn hynny, gan hefyd amlygu'r hyn y gallant ei wella. Nid oes unrhyw atebion cywir nac anghywir nac unrhyw ganlyniadau perffaith. Yn syml, arwyddiant dysgu'r teulu yw arwyddiant personol dysgu eich teulu.

### Beth i'w ddisgwyl mewn digwyddiad Arwyddiant

Ceir teuluoedd o bob math, felly anogir y teuluoedd i benderfynu pwy sy'n dod i'r digwyddiad. Mae croeso i rieni, plant, neiniau a theidiau, modrybedd, ewythrod, ffrindiau, unrhyw un sy'n bwysig i'ch teulu yn eich barn chi. Gellir gwneud Arwyddiant Dysgu'r Teulu mewn sawl ffordd. Gall teuluoedd fod gyda theuluoedd eraill, neu ar eu byrddau eu hunain, ac mewn digwyddiadau yn y gymuned neu mewn ysgolion (neu ar sail un i un yn eu cartrefi eu hunain os oes angen). Mae'n awyrgylch hamddenol a chyfforddus gyda'r cyfle i siarad â'ch teulu, teuluoedd eraill a staff dros baned. Bydd lluniaeth a gweithgareddau ar gael i'r plant. Yn bennaf oll, dylech ddisgwyl cael hwyl. Mae Arwyddiant Dysgu'r Teulu yn gyfle i fyfyrio, dathlu eich cyflawniadau fel teulu ac yn amser gwerthfawr i'w dreulio gyda'ch gilydd.

### Beth sy'n digwydd ar ôl yr arwyddiant?

Nid asesiad mo Arwyddiant Dysgu'r Teulu. Ei ddefnydd pwysicaf yw i chi fel teulu. Gall pob teulu fynd â chopi o'u harwyddiant adref gyda nhw. Bydd ysgolion yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r canlyniadau i gynnig gwell gwasanaethau i chi a'ch teuluoedd. Gall hyn amrywio o ddigwyddiadau, cyngor a gwybodaeth deuluol, i fynediad i wasanaethau cymorth a datblygu partneriaethau rhwng teuluoedd ac ysgolion. Dim ond unwaith ein bod ni'n gwybod yn union beth y mae teuluoedd ei eisiau a'i angen y gallwn wneud hynny, a nod Arwyddiant Dysgu'r Teulu yw canfod hyn.

### Sut y gallwch gymryd rhan

Dewch gyda'ch teulu a sicrhewch fod eich ffrindiau'n dod gyda'u teuluoedd os cewch wahoddiad. Bydd Ysgolion a Chymunedau yn Gyntaf yn chwilio am wirfoddolwyr a allai fod am helpu ac efallai am gael hyfforddiant i helpu teuluoedd eraill. Cadwch lygad am wahoddiadau yn ystod y tymor cyntaf.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael gwybod mwy ewch i:
www.businesslab.co.uk/tools/family-learning-signature.

# Cau Ysgol Uwchradd Llanrhymni

Yn sgîl penderfyniad Llywodraeth Cymru, caeodd Ysgol Uwchradd Llanrhymni ar ddiwedd y tymor hwn, sef dydd Gwener 12 Gorffennaf 2013.

### Beth yw'r bwriad o ran adeiladau Ysgol Uwchradd Llanrhymni?

Mae'r Cyngor wedi cael caniatâd cynllunio i ddymchwel yr adeiladau; mae'n bosibl eich bod eisoes wedi cael llythyr gan yr adran gynllunio i'ch hysbysu am hyn.

Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu sut y caiff y safle ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'n un o'r opsiynau sy'n cael ei werthuso fel un o chwe safle posibl ar gyfer adeiladau newydd Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Yn y cyfamser, gallwn eich sicrhau y caiff y safle ei ddiogelu er mwyn osgoi fandaliaeth ac ymddygiad sy'n peri niwsans.

Rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid yn y gymuned er mwyn sicrhau y caiff yr ardal ei monitro a'i diogelu 24 awr y dydd gan Zenith. Os oes unrhyw bryderon gennych, ffoniwch 0845 5196780.

### Pryd fydd y gwaith dymchwel yn debygol o ddechrau?

Rydym wrthi'n cyflawni'r asesiadau risg ac iechyd a diogelwch angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff deunyddiau'r adeiladau eu rheoli'n briodol a'u gwaredu'n ddiogel. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y broses maes o law.

Mae'n bwysig nodi bod y caniatâd i ddymchwel yr adeiladau yn ein galluogi i ystyried cadw unrhyw gyfleusterau, fel y Maes Chwarae Pob Tywydd, y gellid eu cadw er budd y gymuned. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd y Maes Chwarae Pob Tywydd ar gael dros yr haf.

### A fydd y gwaith yn amharu ar drefniadau parcio a llif traffig yn yr ardal?

Ein nod, gydag unrhyw waith a allai fod angen ei wneud, yw amharu ar y gymuned a thrigolion cyn lleied â phosibl. Fodd bynnag, os yw'n debygol y bydd unrhyw effaith ar draffig neu barcio, er enghraifft, byddwn yn ysgrifennu atoch cyn y cyflawnir unrhyw waith o'r fath.

### Beth am y Ganolfan Ieuenctid?

Bydd y clwb ieuenctid ger yr ysgol ar agor o hyd, gan gynnig gweithgareddau ysgogol a diddorol i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed. Byddwn yn ailbeintio'r ganolfan hefyd i'w gwneud yn fwy croesawgar i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfleusterau.

# Adeiladu ar gyfer y dyfodol

Cynhaliwyd y cyntaf o blith nifer o ddigwyddiadau a gynllunnir mewn ysgolion cynradd y mis diwethaf, gan roi'r cyfle i ddisgyblion Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn y dyfodol fynegi eu barn ar gynlluniau posibl ar gyfer adeiladau newydd yr ysgol.

Gwelwyd cynulleidfa frwdfrydig o ddisgyblion o ysgolion cynradd lleol yn cynnwys Oakfield, Willowbrook, Meadowlane, Trowbridge a Thredelerch, a gymerodd ran weithredol yn y Gweithdy Dylunio.

Roedd hyn yn gyfle iddynt ddweud eu dweud am y cynlluniau roeddent yn eu hoffi, ddim yn eu hoffi a'u barn ar gynlluniau ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Dangoswyd lluniau a dyluniadau o ysgolion gwahanol i'r disgyblion, a chafwyd trafodaethau bywiog o ran p'un a oeddent am gael elfennau o bob un ar gyfer eu hysgol. Yna gofynnwyd iddynt lunio eu darlun eu hunain o'r cynllun yr hoffent ei weld ar gyfer eu hysgol.

Cafwyd cryn dipyn o drafod bywiog o ran y cynlluniau mewnol yn cynnwys y toiledau, lle y dylid eu lleoli, a ph'un a ddylid cynnig basnau golchi dwylo ar wahân i fechgyn a merched. Cafwyd ymateb cymysg hefyd i'r cynlluniau ar gyfer y llyfrgell, gyda rhai yn dweud bod angen rhywle i ymlacio, ond nid oedd rhai disgyblion eraill mor awyddus. Cafwyd trafodaeth hefyd o ran sut y gall yr adeiladau newydd hybu amgylchedd diogel a chadarnhaol ar gyfer dysgu.

Mae adborth gan y disgyblion yn bwysig wrth i ni ddechrau ystyried dyluniadau ar gyfer yr adeilad newydd, y disgwylir





iddo fod yn barod erbyn mis Medi 2016. Bydd yn ysgol o'r radd flaenaf, ac un o'r cyntaf o'r fath yng Nghaerdydd. Mae'n wych gweld y disgyblion yn cymryd rhan ac yn cyfrannu eu hegni, eu creadigrwydd a'u brwdfrydedd.

Cynhelir mwy o sesiynau gyda disgyblion ysgolion cynradd yn nhymor yr hydref. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi maes o law.

Y DIWEDDARAF AM YSGOL Y DWYRAIN

# Y gwasanaeth ieuenctid
## *"Gwyn dy fyd ar hyd yr haf!"*

Drwy gydol yr haf, bu ein Gwasanaeth Ieuenctid yn cydweithio'n agos â'r bobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 11, yn enwedig y rheini nad oes ganddynt leoliad addysgol, hyfforddiant neu waith i fynd iddo ym mis Medi.

Bu tîm Gwaith Ieuenctid Ardal y Dwyrain yn cynnig ystod eang o weithgareddau er mwyn cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc a adawodd ysgolion Uwchradd Llanrhymni neu Dredelerch ar ddiwedd y tymor. Y nod yw annog pobl ifanc i gadw mewn cysylltiad â gweithwyr ieuenctid drwy gydol yr haf er mwyn ceisio osgoi'r risg na fydd y bobl ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant ym mis Medi. Yn hytrach, cynigir cyfleoedd ac arweiniad iddynt astudio cwrs coleg, prentisiaeth neu leoliad cyflogaeth.

O ganlyniad mae llawer wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau neu wedi cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael; yn cynnwys cyrsiau Cymorth Cyntaf a Chyrsiau Achub Bywyd. Mae cwnsela a chymorth un i un gan weithwyr ieuenctid cymwys ar gael hefyd i helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau o ran eu cyfleoedd ôl-16.

### Y Ddarpariaeth "Ieuenctid" ym mis Medi

Caiff y bobl ifanc rydym wedi dod i'w hadnabod dros yr haf eu cyflwyno i Anogwyr Dysgu Gyrfa Cymru i roi cyngor, cymorth ac anogaeth iddynt i gymryd rhan yn yr ystod eang o gyrsiau sydd ar gael. Bydd y Gweithwyr Ieuenctid yn cynnig cymorth parhaus tan y Nadolig.

Fel rhan o'r cymorth sydd ar gael yn ystod y cyfnod didrafferth o symud i mewn i'r ysgol yn yr hydref, bydd gweithwyr ieuenctid wedi'u lleoli yn yr ysgol i gynorthwyo staff addysgu penodedig yr ysgol.

Bydd Canolfan Ieuenctid Llaneirwg (y tu ôl i Tesco); Gwasanaeth Ieuenctid Trowbridge (Canolfan Gymunedol Trowbridge – ger tafarn y Newbridge), Canolfan Ieuenctid Tredelerch (Greenway Road – ger yr Ysgol Gynradd) ar agor fel arfer yn yr hydref. Mae Canolfan Ieuenctid Llanrhymni yn Ball Road ar agor hefyd er bod yr ysgol wedi cau.

Caiff manylion amseroedd a rhaglen ddigwyddiadau eu dosbarthu maes o law drwy ysgol eich plentyn yn ystod tymor yr hydref.

Mae Swyddfa Gwasanaeth Ieuenctid Ardal Dwyrain Caerdydd yng Nghanolfan Ieuenctid Tredelerch, rhif ffôn 2077 9365. Mae croeso i chi gysylltu os oes gennych gwestiwn penodol.

# Mae ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gael i chi

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth gwybodaeth a chyngor di-dâl sydd ar gael i BOB rhiant/gofalwr plant a phobl ifanc 0 i 19 oed a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw.

Gall y tîm roi gwybodaeth a chyngor i chi i'ch helpu i ddod o hyd i'r canlynol a dewis o'u plith:

- **Gofal plant cofrestredig** (Gwarchodwyr Plant, Meithrinfeydd, Grwpiau Chwarae, Crèche, Clybiau Brecwast a Chlybiau ar ôl Ysgol)
- **Gofal Plant Anghofrestredig** (Clybiau Gwyliau, Clybiau Chwaraeon, Grwpiau Rhieni a Phlant Bach)
- **Gweithgareddau a Digwyddiadau i Blant a Phobl Ifanc** (Diwrnodau Hwyl Cymunedol, Canolfannau Hamdden, Clybiau Ieuenctid, Llyfrgelloedd)
- **Sefydliadau Cymorth i Deuluoedd**

Gallant hefyd gynnig gwybodaeth am y canlynol:

- **Help gyda chostau gofal plant** (Credydau Treth CTEM, y System Talebau Gofal Plant)
- **Gyrfaoedd ym maes Gofal Plant**
- **Hyfforddiant Gofal Plant**
- **A llawer mwy...**

"Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn fan cychwyn delfrydol os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cyngor neu wybodaeth arnoch o ran pwy



Y Tîm GGD

sy'n gallu rhoi cymorth i chi a'ch teulu. Gall Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd roi gwybodaeth i chi sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eich anghenion unigol, felly mae croeso i chi gysylltu â ni yn y lle cynaf!" - Emer van Neikerk, Swyddog y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

**Manylion cyswllt eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**

☎ 029 2035 1700
✉ fis@caerdydd.gov.uk
💻 www.childcareincardiff.info/fis
www.facebook.com/cardifffamilyinformationservice

# Cyflwyno Dylan, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Bydd y disgyblion yn gweld Dylan yn aml dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod wrth iddo gymryd rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Bydd wedi'i leoli yn yr ysgol yn llawn amser.



### Amdanaf i...

Rwy'n hanu'n wreiddiol o Aberteifi yn y gorllewin. Symudais i Gaerdydd i weithio i Heddlu De Cymru. Rwy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac mae gennyf gefndir ym myd chwaraeon yn cynnwys chwarae pêl-droed a hyfforddi chwaraewyr o oedran ifanc iawn ar lefel Genedlaethol a Rhyngwladol. Mae gennyf brofiad o waith ieuenctid hefyd; mae gennyf NVQ lefel 3 mewn gwaith ieuenctid a gyflawnais gyda Chyngor Sir Ceredigion, tra'n gweithio i'r gwasanaeth mewn clybiau ieuenctid ac ysgolion lleol.

### Fy Rôl

Rydw i'n Swyddog Cymorth Cymunedol gyda Heddlu De Cymru. Bûm yn gweithio yn ardal Trowbridge cyn cael fy mhenodi i'r rôl newydd gyffrous hon, sef Swyddog Cyswllt Ysgolion yr Heddlu. Fy mlaenoriaeth gyntaf yn fy rôl newydd fydd helpu gydag Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Byddaf yn cydweithio â Swyddog Cyswllt Ysgolion presennol yr Heddlu, y Cwnstabl Natalie Watham, er mwyn sicrhau cydweithio rhwng yr ysgolion a'r heddlu, gan ddefnyddio dull gweithredu adferol i ddatrys unrhyw broblemau yn yr ysgol.

### Cyngor i bobl ifanc a fydd yn mynychu Ysgol Uwchradd y Dwyrain

Mae hwn yn gyfle gwych i ddechrau o'r newydd, gwneud ffrindiau newydd, a chymryd yr holl bethau cadarnhaol rydych wedi'u dysgu yn Nhredelerch a Llanrhymni a'u cyfuno yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Cofiwch fod yr holl broses hon yr un mor newydd i ni oll, yn cynnwys holl athrawon a staff cymorth yr ysgol. Sicrhewch eich bod yn dod i'r ysgol ar y diwrnod cyntaf gydag agwedd gadarnhaol, y wisg ysgol gywir a'r holl offer y bydd ei angen arnoch i ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd hon.

### Pwysigrwydd cydweithio

Ni allai Heddlu De Cymru wneud yr hyn a wnawn heb rwydwaith cymorth ein cydweithwyr mewn sefydliadau partner. Er enghraifft, rydym yn cydweithio'n agos mewn partneriaeth â Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Troseddu'r Cyngor, staff ymddygiad gwrth-gymdeithasol, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf. Drwy gydweithio'n agos ar nifer o fentrau a chynlluniau rydym wedi datblygu cydberthnasau gwaith gwych gyda'r timau hyn er mwyn gwneud gwahaniaeth gadarnhaol yn eich cymunedau. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio'n agos â'r gwasanaeth rheoli cymdogaethau i helpu i ddatrys problemau ar y cyd ag asiantaethau lleol, os bydd materion yn yr ysgol yn effeithio ar y gymuned leol. Rydym am wrando ar bawb sy'n ymwneud â'r gwaith ac annog pobl i ddatrys unrhyw broblemau gan ddefnyddio dulliau adferol, lle bynnag y bo'n bosibl.

### Fy manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon mae croeso i chi gysylltu â mi – gallwch e-bostio **dylan.jones@south-wales.pnn.police.uk** or neu fy ffonio/anfon neges destun i **07825 523 795**. Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod yn fuan.

**Diolch i Dylan am roi o'i amser i siarad â ni, a phob lwc iddo yn ei rôl newydd.**

## Os oes cwestiwn gennych – croeso i chi gysylltu â ni


Os oes gennych gwestiwn neu os hoffech fynegi eich barn i ni, mae croeso i chi gysylltu â ni'n uniongyrchol a gwnawn ein gorau i'ch ateb. Gallwch ffonio **029 2087 2720** neu e-bostio **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**

Dilynwch ni ar Twitter **@CyngorCaerdydd** am holl newyddion diweddaraf y Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd yn **www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion**

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall. Cysylltwch â ni ar y rhif uchod neu drwy e-bost a gwnawn y trefniadau angenrheidiol ar eich rhan.

**www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion**

Arwain Caerdydd
**Adeiladu Cymunedau**




## Cynlluniwch eich taith!
## (Map o'r Llwybr – tudalen i'w thynnu allan)

Mae'n syniad da i benderfynu sut y byddwch yn teithio i'r ysgol ymhell o flaen llaw. Mae'r rhan fwyaf o'n disgyblion yn byw o fewn 3 milltir i'r ysgol sy'n golygu ei bod yn hawdd cyrraedd yr ysgol drwy gerdded yno neu deithio ar feic neu fws. I'ch helpu gyda'r gwaith cynllunio gallwch ddefnyddio'r map uchod ynghyd â nifer o ffynonellau gwybodaeth defnyddiol:

**www.travelinecymru.info** – mae hwn yn gyfleuster cynllunio siwrnai o ddrws i ddrws. Bydd yn dangos llwybrau ac amserau bysus yn ogystal â sut i gerdded i'ch safle bws agosaf. Gallwch hefyd gynllunio taith feic gyda'r teclyn cynllunio siwrnai.

**www.cardiffbus.com** – gwybodaeth am wasanaethau, mapiau o'r llwybrau ac amserau'r gwasanaethau. Cofiwch mai ffi plentyn yn unig a godir ar bobl ifanc 16-18 oed ar wasanaethau Bws Caerdydd.

**www.cadwcaerdyddisymud.co.uk** – siop un stop ar gyfer pob math o ddulliau teithio. Mae digon o wybodaeth am feicio ar y wefan gan gynnwys mapiau a gwybodaeth am hyfforddiant i feicwyr.

Os oes rhaid i chi gludo'r plant i'r ysgol yn y car cofiwch fod yn synhwyrol ac yn ofalus wrth eu gadael yn yr ysgol neu eu codi ar ddiwedd y dydd!

# Cyngor defnyddiol gan ein Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd

Mae Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn awyddus i annog rhieni i ganiatáu i'w plant gerdded neu feicio i'r ysgol, lle y bo'n bosibl – mae hynny'n iachach, yn fwy cymdeithasol ac yn osgoi problemau parcio i drigolion lleol sy'n byw yn agos i'r ysgol. Rydym am sicrhau bod y plant mor ddiogel â phosibl wrth ddefnyddio'r dulliau iachach hyn o deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

Dyma gyngor defnyddiol i chi a'ch plant gan y tîm Diogelwch ar y Ffyrdd i gefnogi dulliau teithio annibynnol eich plentyn:

**Cerdded i'r ysgol:**

- Dewiswch lwybr diogel i'r ysgol gan ddefnyddio'r holl fannau diogel sydd ar gael i groesi'r ffyrdd prysur – edrychwch am y croesfannau sebra a'r croesfannau i gerddwyr.
- Peidiwch â gadael i unrhyw beth dynnu eich sylw... mae hyn yn golygu peidio gwrando ar eich iPod neu ddefnyddio eich ffôn symudol wrth gerdded.
- Dylech ganolbwyntio bob amser!
- Gwisgwch ddillad llachar yn y gaeaf, bydd hyn yn eich gwneud yn fwy gweladwy ar eich taith.
- Cymerwch ofal arbennig wrth groesi Heol Casnewydd – dylech ddefnyddio'r bont groesi i gerddwyr os oes angen i chi groesi'r ffordd brysur hon.

**Beicio i'r ysgol:**

- Defnyddiwch bob llwybr diogel i'r ysgol, gan sicrhau eich bod yn cymryd gofal arbennig pan fyddwch ar Heol Casnewydd neu'n agos iddi gan fod hon yn ffordd brysur iawn.
- Sicrhewch fod eich beic yn ddiogel i'w ddefnyddio ar y ffyrdd – sicrhewch fod y teiars a'r breciau yn ddiogel a gosodwch oleuadau diogelwch ar eich beic.
- Dylech wisgo helmed a dillad llachar bob amser er mwyn eich diogelu a sicrhau eich bod yn weladwy i yrwyr.
- Dylai fod clo gennych er mwyn cadw eich beic yn ddiogel yn yr ysgol.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch problemau parcio rhowch wybod i C2C ar 029 2087 2088 neu anfonwch e-bost i c2c@caerdydd.gov.uk

**Gyrwyr:**

- Dylech sicrhau eich bod chi a'ch teithwyr bob amser yn gwisgo gwregys diogelwch, waeth pa mor fyr yw'r daith.
- Os ydych yn gadael y cerbyd ar Heol Casnewydd, dylech wneud hynny ar ochr y droedffordd.
- Peidiwch â gadael i unrhyw beth dynnu eich sylw a sicrhewch fod eich teithwyr yn deall yn glir bod angen i chi ganolbwyntio wrth yrru!
- Dylech barcio mewn modd cyfrifol bob amser
- Byddwch yn ymwybodol o gerddwyr a beicwyr bob amser

Dywedodd Maurice Lawrence o'n Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd, *"Mae'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd yn ymrwymedig i helpu disgyblion Ysgol Uwchradd y Dwyrain er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyrraedd y safle yn ddiogel."*
Bydd y Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd yn cydweithio'n agos ag Ysgol Uwchradd y Dwyrain dros y misoedd i ddod i sicrhau y caiff y negeseuon allweddol am deithio'n ddiogel i'r ysgol eu hyrwyddo'n effeithiol.

## Mannau gollwng a chasglu ar gyfer yr ysgol

Gan y bydd mwy o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain ym mis Medi mae mesurau'n cael eu rhoi ar waith i wella diogelwch ar y ffyrdd ar Heol Casnewydd. Mae'r map isod yn amlygu'r mannau gollwng a chasglu y cytunwyd arnynt ar gyfer yr ysgol:

Hoffem atgoffa rhieni o'ch cyfrifoldebau o ran lle rydych yn parcio eich cerbydau wrth ollwng neu gasglu eich plentyn/plant. Rydym hefyd yn gofyn i chi annog eich plant i gerdded neu feicio i'r ysgol, lle y bo'n bosibl.

Bydd ein Swyddogion Parcio Sifil yn patrolio'r ardal yn rheolaidd yn ystod wythnosau cyntaf y tymor newydd i atal parcio anghyfrifol ac addysgu rhieni ynghylch peryglon ymddygiad anghyfrifol yn yr ysgol ac o'i hamgylch.




Arwain Caerdydd
**Adeiladu Cymunedau**

Y DIWEDDARAF AM YSGOL Y DWYRAIN


EASTERN AVENUE A48
BURNHAM AVENUE
COUNTISBURY AVENUE
NEWPORT ROAD
GREENWAY ROAD
WILLOWBROOK DRIVE
CRICKHOWELL ROAD
LLANRUMNEY AVENUE
WENTLOOG ROAD
SOUTHERN WAY
NEW ROAD
49
45
EASTERN HIGH
KEY
Bus route
Llwybr bysiau
Walking route
Llwybr cerdded
Traffic free path
Llwybr heb draffig
Bus stop
Arhosfan Bws
45
Service number
Rhif gwasanaeth
School gates
Gatiau ysgol
Walking: 0.5 miles, 10 minutes or less
Cerdded: 0.5 milltir, 10 munud neu lai
Walking: 1 mile, 20 minutes or less
Cerdded: 1 milltir, 20 munud neu lai
Walking: 1.5m, 35 minutes or less
Cerdded: 1.5 milltir, 35 munud neu lai